

tafod elai

MEHEFIN
2025

Rhif 398

Pris £1

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025



Y Deinosoriaid - Grwp Llefaru Bl.6 ac iau (Adran): 1af Adran Bro Taf



Parti Cerdd Dant Bl.9 ac iau (Adran): 1af Adran Bro Taf



Dawns Stepio Grŵp Bl.6 ac iau: 1af Adran Bro Taf



Craig y Nos - Perfformio Golygfâ Bl.6 ac iau (D): 1af Lily-Mae, Sophie a Martha, Ysgol Gynradd Pentyrch

21.06.25

PARTI BACH PONTY

10:30 - 17:00
CERDDORIAETH
GWEITHGAREDDAU
BWYD A DIOD
BANDSTAND +
CANOLFAN CALON TAF
PARC COFFA YNYSANGHARAD



Llefaru Unigol Bl.2 ac iau (D):
1af Gethin Michael Williams,
Ysgol Gynradd Gwauncelyn



Llefaru Unigol Bl.5 a 6 (D):
1af Gracie Burr-Green,
Ysgol y Creigiau

Menter Coerdydd yn cyflwyno...

TAFWYL

MEHEFIN 14 + 15 2025
PARC BUTE

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf
i gyrraedd erbyn
27 Mehefin 2025

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
<http://www.tafodelai.cymru>

Argraffwyr:



EVANPRINT

www.evanprint.co.uk

CYMRAG

**Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru**

**Gwasanaeth addurno,
peintio a phapuro**

Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol
ar gyfer eich cartref
neu fusnes**

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

**I gael pris am unrhyw
waith addurno**



EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Llongyfarchiadau

Mae tad-cu a mam-gu Nantylfelin, Martin a Liz West wrth eu boddau i gael croesawu eu hwyr bach cyntaf i'r teulu. Ganwyd Maesen Henry i Rhydian a Katie sydd wedi ymgyrtrefu yn Radur. Llongyfarchiadau gwresog i chi fel teulu.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i deulu Iestyn Thomas a fu farw yn ystod y mis. Mab i Anne a'r diweddar Ed Thomas, Heol y ffynnon oedd Iestyn ac yn frawd i Carys.

Brysiwch Wella

Dymunwn yn dda i Ann Rees, Penywaun a Dave Eyres, Heol Iscoed a'r ddau wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty'n ddiweddar. Brysiwch wella eich dau.

"Pum Diwrnod o Ryddid"

Dwi ddim yn credu fod llawer o Gymry Cymraeg adref ym Mhentref Efail Isaf ar nos Sadwrn, Mai 10fed. Roedd pawb wedi tyrru i Ganolfan hardd ger Casnewydd i fwynhau sioe Cwmni Theatr Maldwyn, "Pum Diwrnod o Ryddid". Hanes Mudiad y Siartwyr a'r gwrthdaro rhwng y gweithwyr, yr heddlu a'r milwyr yn Llanidloes a Chasnewydd gawsom. Roedd y perfformiad yn wfreiddiol a phawb yn y gynulleidfa wedi mwynhau'r profiad i'r eithaf.

Rhaglen Radio "Caryl"

Wrth noswylio ar nos Iau, Mai 1af fe ddigwyddais wrando ar raglen Caryl Parry Jones ar y radio a sylweddoli mai Huw M, ein cymydog, oedd yn westai ar y rhaglen. Bu'n sôn am ei ganeuon a sut y bu iddo eu cyfansoddi. Mae'n gweithio'n ddiwyd ar hyn o bryd yn creu record arall. Rhoddodd gyhoeddusrwydd i'r sesiynau canu poblogaidd mae'n arwain yn Nhafarn y Carpenters a Chlwb y Bont. Pleser oedd cael gwrandao ar y sgwrs.

Y TABERNACL Cymorth Cristnogol

Gan nad ydym yn Y Tabernacl yn casglu o ddrws i ddrws bellach anogwyd yr aelodau i gyfrannu'n hael tuag at Gymorth Cristnogol. Bydd yr arian eleni yn cael ei gyflwyno i helpu cymunedau ffermio yn Guatemala. Mae'r wlad o dan fgythiad sychder anghuol a stormydd niweidiol oherwydd yr argyfwng hinsawdd. Trefnwyd Cinio Bara Caws yn

Neuadd y Pentref ar ôl yr Oedfa, fore Sul, Mai 1leg i gefnogi Cymorth Cristnogol. Cafwyd ymateb da iawn i'r cinio.

Brynhawn Sul, Mai 18fed fe drefnwyd fod Mari McNeill, prif swyddog Cymorth Cristnogol yng Nghymru yn dod i sôn ymhellach am ymgyrch Cymorth Cristnogol yn Guatemala. Trefnwyd gweithgareddau crefft a garddio i'r plant tra roedd eu rhieni'n gwrandao neges Mari McNeill. Cafwyd paned a gwledd o deisennau cyn ac ar ôl yr Oedfa.

Merched y Tabernacl

Bu cyfarfod o aelodau Merched y Tabernacl yn Nantgarw fore Gwener, Mai 9fed. Cawsom ein tywys o amgylch y crochendy gan Eurwyn William. I ddechrau fe ddangosodd ffilm fer i ni ac fe gawsom weld y casgliad llestri gwerthfawr a chael tipyn o hanes eu creu. Sais o'r enw William Billingsley wnaeth sefydlu'r crochendy. Roedd y ffaith fod y gamlas gerllaw yn fantais o ran lleoliad i'r gwaith. Crëwyd llestri o safon uchel iawn yno ac mi roedd y llestri'n cael eu haddurno'n gelfydd iawn. Ffaith ddiddorol oedd bod tua naw deg y cant o'r llestri'n malu wrth gael eu tanio. Roedd y rhai a oedd yn gwrthsefyll y gwres tanbaid yn llestri o safon uchel iawn.

Stori dorcalonius a adroddwyd gan ein tywysydd oedd i ddwy o ferched William Billingsley farw'n ifanc iawn. Roedd y ddwy'n feistri ar addurno'r llestri a'r farn oedd bod gwenwyn yn y paent a ddefnyddiwyd ganddynt wedi lladd y ddwy.

Ar ôl cwblhau'r daith o amgylch y crochendy cawsom banded a dewis o fara brith neu bice ar y maen. Bore hyfryd a'r tywysydd yn arbennig o ddiddorol.

Dymunwn yn dda i Gwenfil Thomas ac Eirian Rowlands, dwy o'n haelodau selocaf sydd heb fod yn rhy dda eu hiechyd yn ddiweddar.

Cawn seibiant dros yr haf, ond bydd croeso i'r aelodau ymuno â Thaith Cymdeithas Gymraeg Llantrisant i'r Ardd Fotaneg dydd Sadwrn, Gorffennaf 5ed.

Fe fydd ein cyfarfod nesaf yng Nghanolfan y Tabernacl ar Fedi 26ain am 10:30 y bore.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mehefin

Mehefin 1af Geraint Rees
Mehefin 8fe Y Parchedig Aled Edwards
Mehefin 15fed Cyfarfod Brynhawn
Mehefin 22ain Karen Owen
Mehefin 29ain Oedfa arbennig gyda Yasmine Rishmawi, Cristion o Balesteina.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Cylch Cadwgan

Eurgain Haf oedd y siaradwraig wadd yng nghyfarfod Cylch Cadwgan dan nawdd Clwb y Dwrllyn ym Mhentyrch nos Iau, Mai 15fed. Cawsom noson ddfyfr a chartrefol yn ei chwmmi a'i harddull annwyl, hamddenol a diymhongar o draddodi wedi swyno pawb.



Soniodd i gychwyn am y dylanwadau cynnar fu arni a arweiniodd at ei llywyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf y llynedd pan enillodd y Fedal Rhyddiaith am ei nofel 'Y Morfarch Arian'. Cyfeiriodd at yr hyn a'i hysbrydolodd i ysgrifennu - chwedloniaeth ei hardal enedigol yn Eryri, dawn ei mam i adrodd straeon, diwylliant ei phlentynod ym Mhenisaraun. Cafodd ei hannog gan feirniad eisteddfodau lleol i ddal ati a mynychodd amryw o gysgiau ysgrifennu lle mireiniodd ei dawn o ysgrifennu'n delynegol.

Yn Ysgol Uwchradd Brynrefail daeth o dan dylanwad athrawon disglair fel Esyllt Maelor ac Alwyn Fleming ac yna John Rowlands ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth.

Aeth ymlaen i sôn am y llyfrau plant mae hi wedi eu hysgrifennu a nifer yn cynnwys cymeriadau chwedlonol. Un llyfr oedd yn agos iawn at ei chalon oedd 'Y Boced-Wag' pan gafodd gymorth ei mab, Cian.

Crwydrodd i nifer o fannau i wneud ymchwil ar gyfer y llyfrau hyn - o Bortmeirion i'r Almaen. Cafodd ei chyfareddu gan wyliau yn Seland Newydd a gwelai debygrwydd rhwng Cymru â thirwedd y wlad, ei phobl, ei

chwedlau a iaith y Maori.

Seland Newydd oedd ffynhonnell bwysig egin syniad stori 'Y Morfarch Arian'. Bu'n gweithio'n ysbeidiol ar hon am dros ugain mlynedd ond gorfod cwrdd â dedlein Prifwyl Pontypridd ddaeth â'r gwaith i fwcl. Siaradodd am thema a chymeriadau'r nofel gan gynnig dyfyniadau pwrpasol. Mewn ateb i gwestiwn gan un o'r gynulleidfa, eglurodd ystyr ei ffugenw 'Manaia' sef creadur mytholegol tebyg i forfarch yn niwylliant a iaith y Maori.

Ar y diwedd diolchwyd iddi'n ddiwylliant a chelfyddig gan Ann Dwynwen.

M R

Anrhydedd

Llongyfarchiadau i Dr Rhodri Jones, mab Elenid (fu'n byw am nifer o flynyddoedd ym Mhentyrch) ar ei ethol yn gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Yn byw ger Genefa fe sy'n gyfrifol am weithrediad y Gwrthdrawr Hadron Mawr, y cyflymydd gronnau mwyaf o'i fath yn y byd sydd wedi ei leoli yng nghanolfan CERN ar y ffin rhwng y Swistir a Ffrainc.

Dyma'r ail anrhydedd sydd wedi dod i ran Rhodri yn ystod y flwyddyn ddiwetha oherwydd fis Awst y llynedd derbyniodd Fedal

Wyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf.



Ras Y Garth

Y llynedd roedd y tywydd ddiwedd Ebrill yn erchyll ar gyfer Ras y Garth a'r rhedwyr yn brwydro'r elfennau - gwynt a glaw trwm. Eleni roedd yr amodau'n hollol wahanol a'r 258 a fentrodd ar y daith o 6 milltir i fyny'r llethrau yn gorfod gwneud hynny mewn gwres llethol. Ymhlith y dewrion roedd Ifan Glyn o Waelod y Garth a lwyddodd i gwblhau'r her mewn amser anrhydeddus iawn.



Rhai o lyfrau Eurgain Haf



Canlyniadau Eisteddfod yr Urdd

Dydd Llun - Unawd Offer Taro Bl.6 ac iau: 3ydd Huw Thomas Jones, Ysgol Gynradd Gwauncelyn

Ensemble Lleisiol Bl.6 ac iau (YC/Adran): 2il Ysgol Gymraeg Llantrisant Dawns Werin Bl.6 ac iau (Ysgolion dros 100 o blant rhwng 4-11 oed ac Adranau): 2il Adran Bro Taf. Dawns Stepio Grwp Bl.6 ac iau: 1af Adran Bro Taf
Dydd Mawrth - Côr Bl.6 ac iau (YC) (Ysgolion â dros 150 o blant rhwng 4-11 oed): 3ydd Ysgol Gymraeg Llantrisant Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Unigol Bl.6 ac iau: 3ydd Alaw Fflur Gwilym-Davies, Ysgol Gwaelod Y Garth

Dydd Mercher

Perfformio Golygfa Bl.6 ac iau (D): 1af Lily-Mae, Sophie a Martha, Ysgol Gynradd Pentyrch
Llefaru Unigol Bl.2 ac iau (D): 1af Gethin Michael Williams, Ysgol Gynradd Gwauncelyn
Llefaru Unigol Bl.5 a 6 (D): 1af Gracie Burr-Green, Ysgol y Creigiau
Côr Bl.9 ac iau (Adran): 3ydd Adran Bro Taf. Grwp Llefaru Bl.6 ac iau (Adran): 1af Adran Bro Taf
Parti Bl.6 ac iau (Adran): 3ydd Adran Bro Taf. Parti Deusain Bl.9 ac iau (Adran): 2il Adran Bro Taf
Côr Bl.6 ac iau (Adran): 2il Adran Bro Taf
Parti Cerdd Dant Bl.9 ac iau (Adran): 1af Adran Bro Taf

Dydd Iau

Unawd Offer Taro Bl.10 a dan 19 oed: 3ydd Elis Wyn Jones, Ysgol Garth Olwg
Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Merched Bl.9 ac iau: 1af Beca Fflur George, Adran Bro Taf
Unawd Gitâr Bl.10 a dan 19 oed: 3ydd Elis Wyn Jones, Ysgol Garth Olwg
Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Bechgyn Bl.9 ac iau: 1af Osian Jones, Adran Bro Taf
Perfformio Golygfa (5-10 mewn nifer) Bl. 7, 8 a 9: 2il Adran Bro Taf
Dawns Werin Bl.7, 8 a 9: 1af Bro Taf
Unawd Telyn Bl.10 a dan 19 oed: 1af Erin Fflur Jardine, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
Dydd Gwener

Unawd Piano Bl.10 a dan 19 oed: 1af Erin Fflur Jardine Ysgol Gyfun Plasmawr
Dydd Sadwrn
Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Merched Bl.10 ac o dan 25 oed: 1af Elen Morlais Williams, Adran Bro Taf
Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol Bechgyn Bl.10 a dan 25 oed: 1af Morus Caradog Jones, Aelod Unigol Cylch Gorllewin Caerdydd

Perfformiad o Gân Sioe Gerdd 19-25 oed: 1af Iestyn Gwyn Jones, Aelod Unigol Cylch Gorllewin Caerdydd
Dawns Stepio Bl.7 a dan 25 oed: 1af Bro Taf. Dawns Stepio Grwp dan 25 oed: 2il Bro Taf

Erin Fflur Jardine o Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Caerdydd sy'n derbyn Ysgoloriaeth yr Eisteddfod a wobrwyr i'r cystadleuydd mwyaf addawol yn yr oedran blwyddyn 10 a dan 19 oed.

Parhad tudalen 16 >

Y dwys a'r digri'n cyfuno Huw Fyw, Theatr y Sherman, nos lau, Mai 15

Roedd cyntedd y theatr fel Maes y Steddfod a'r her felly oedd penderfynu pwy i gyfarch a phwy i osgoi. Wrth eistedd yn fy sedd, fe deimlwn ddisgwylygarwch o 'nghwmpas i cyn gwyllo drama gomedi yr awdur a'r actor, Tudur Owen, ffrwyth llafur oedd wedi para am ddwy flynedd.



1995 oedd hi a Huw Fyw (Tudur Owen) yn ei fflat, oedd ar fin cael ei chwalu, yn conan am bawb a phopeth fel Alf Garnett flynyddoedd yn ôl. Pam? Am ei fod yn y bôn yn ceisio anghofio ei brofiadau erchyll mewn gweryll yn Malaya yn yr Ail Ryfel Byd, rhai oedd yn cael eu dadlennu yn hwyrach yn y ddrama.

Wendy (Lois Meleri Jones) oedd yn gofalu amdano, yn galw bob dydd i goginio pei gig, a nes ymlaen roedd yn amlwg ei bod hi'n poeni am ei mab, Dylan (Owen Alun), oedd yn ymddangos gerbron llys ar gyhuddiad o ddwyn cyffuriau. Pam oedd yn camymddwyn? Am ei fod yntau'n ceisio anghofio, bod ei fywyd yn annioddefol.

Cyn y perfformiad dywedodd y cyfarwyddwr, Steffan Donnelly: 'Mae dadl ddifyr rhwng y gorffennol a'r presennol yn rhedeg drwy'r stori, un sy'n gofyn sut mae rhywun yn dygymod efo digwyddiadau sy'n siapiro pwy ydyn ni.' Os felly, y gamp oedd gwneud hyn heb



Merched y Wawr Cangen y Garth

Kath a Cats

A ninne ar drothwy'r Ewros pêl-droed, am fraint ydoedd cael estyn croeso i Catrin Heledd a Kath Morgan - y Ferch o Ferthyr - i'n hannerch a'n goleuo ar hanes pêl-droed merched yma yng Nghymru dros y degawdau. Hanes brwydro am gydnabyddiaeth, am degwch, am statws, am gydraddoldeb - brwydr sydd eto i'w hennill yn llwyr. Diolch i Catrin am grynhoi mor dwt hanes pêl-droed merched Cymru ers y dechrau ym 1973. A diolch am lywio'r sgwrs gyda Kath mor ddehegy a chartrefol.

Mae Kath Morgan wedi ennill dros hanner cant o gapiau dros ei gwlad! Rhyfeddod! Enillodd y cynta a hithau ond



Catrin a Kath

fod yn sentimental yn llwyr.

Yng nghanol y ddrama roedd trobwynt annisgwyl, Huw Fyw'n ennill y loteri oedd yn golygu ei fod e a'i ffrindiau i gyd yn mynd i Lundain lle byddai'n derbyn ei wobwr a wynebu ei orffennol.

Yn fy marn i, roedd ambell i ôl-olwg efallai'n rhy sydyn, er enghraifft yr olygfa rhwng Huw Fyw a Huw Farw (Owen Alun) ar y trê, ond roedd rhai golygfeydd yn effeithiol iawn, gan gynnwys yr un lle oedd yr heddlu'n cyraedd yn Llundain pan oedd Huw Fyw'n bygwth â'i ddryll, a'r un lle roedd Twm (Dafydd Emyr) yn croesawu Huw Fyw gwahanol yn ôl o'r rhyfel.

Roedd defnydd da iawn o'r set a'r gofod a phob clod i'r cynllunydd, Elin Steele, ac i Eleanor Higgins am y goleuo. Weithiau roedd golygfa'n dibynnu i raddau helaeth ar ddeialog a dychymyg y gynulleidfa, er enghraifft yr un ar y plattform cyn bod y trê yn gadael. I fi, rhan allweddol o'r perfformiad oedd miwsig, gan gynnwys cân Glenn Miller cyn i'r ddrama gychwyn a seiniau offerynnau pres bob hyn a hyn oedd yn creu naws hiraethus.

Ar y cyfan, elfennau lledffarsaidd lwyddodd i leddfu difrifoldeb y thema er roedd yr hiwmor weithiau'n hen-ffasiwn ond rhaid derbyn bod Theatr Gen yn ceisio anelu at apelio at drwch y boblogaeth. Yn sicr, mae 'na wahaniaeth rhwng hiwmor gogleddol, hiwmor gorllewinol a hiwmor deheuol ond awn ni ddim ar ôl y trywydd hwnnw y tro hwn.

'Gormod o goflaid,' meddai dyn tenau, byr wrth adael y theatr. Efallai ond roedd y cydbwysedd rhwng y dwys a'r digri'n ddigon i ddifyrru'r gynulleidfa.

Cynhyrfwr

yn 17 oed! Adroddodd Kath yr hanesyn yna - am y gemau yn 1993 - yng Ngwlad Belg - hithau'n cofio bod yn hollol *star-struck* yn cwrdd â'u harwyr ar y cae - sef Merched yr Unol Daleithiau - hwythau'n derbyn amlenni brown yn ddyddiol - a'r Cymry yn derbyn UN amlen frown ar ddiwedd y deng niwrnod o gystadlu - agor yr amlen - a chanfod papur £10 oddi mewn - sef punt y dydd o dâl/cynhalieth! Sobor! Araf iawn fu datblygiadau positif ym myd y merched. Kath yn cofio'r dyddie lle roedd rhaid i'r merched wisgo crysau chwyslyd, anferth y dynion ar gyfer eu gêmaw mawr - hi'n rhannu cit gyda Mark Delaney - oedd ddwywaith maint ei ffrâm fechan hi! Doedd rhyfedd iddynt groesawu Jarmo Matikainen, gŵr bonheddig o'r Ffindir ddaeth yn rheolwr ar dîm Merched Cymru yn 2010. Gwellodd pethau o dan ei arweiniad ef.

Bellach mae Merched Cymru wedi llwyddo i gyrraedd Ewros 2025 - a mawr yw'r disgwyliadau! Bydd Kath a Catrin yno'n sylwebu! Edrychwch mas amdany'n nhw! Yn y Swistir mae'r Ewros eleni! Bydd Cymru'n cwrdd â'r Iseldiroedd ar y 5ed o Orffennaf; yna Ffrainc ar y 9fed a'r gelyn mawr, Lloegr ar y 13eg! Cefnogwch dîm Rhian Wilkinson - edrychwch mas am yr enwau mawr Jess Fishlock, Sophie Ingle, Ceri Holland, Gemma Evans, Rhiannon Roberts, Hayley Ladd, Angharad James . . . i enwi ond ychydig!

Pob lwc i Ferched Cymru! Tasen ni ond yn gallu potelu rhywfaint o angerdd Kath a Cats - byddai Cymru'n dychwelyd adre'n bencampwr! Amdani ferched! Diolch o galon am orig ysbrydoledig! Siwr bydd yna gryn dipyn mwy o gefnogwyr ar ôl eich ymweliad ferched!

PONTYPRIDD

Merched y Wawr

Bydd cyfarfod nesaf Merched y Wawr Nos Iau Mehefin y 12fed am 7:30yh yng Nghlwb y Bont. Bethan Mair fydd yno i'n diddanu a mis hyn rydym yn gofyn i'n haelodau ddod â ffrind - er mwyn gobeithio denu aelodau newydd ym mis Medi.

Clwb Llyfrau.

Cynhelir cyfarfod y Clwb Llyfrau fore Mercher Mehefin 18fed am 10:30yb yn Llyfrgell Newydd Pontypridd. Croeso i unrhyw un i ymuno â ni. Rydym yn trafod llyfrau Cymraeg a Saesneg - mae'r cyfarfodydd yn ddiddorol ac mae lot o chwerthin hefyd.

Llongyfarchiadau

Pob dymuniad da i Val a Steve Williams, Parc Prospect, Graigwen wrth iddynt ddathlu eu priodas aur.

Colled

Bu farw Clayton Jones, Ynysybwl, ym mis Ebrill. Cynhaliwyd ei angladd Dydd Gwener Mai 30ain yn Eglwys St Catherine Pontypridd.

Cychwynnodd Clayton Jones ei yrfa fel Hyfforddwr Gyrru Ceir yn Ynysybwl cyn sefydlu cwmni bysiau Celtic Connection. Prynodd Cwmni Teithio Shamrock yn 1985 a ddatblygodd i wasanaethu nifer o ardaloedd yn Ne Cymru. Cafodd ambell i ddadl gyda'r Comisiynwyr Trafnidiaeth tra'n reoli'r cwmni bysiau. Gwerthodd y cwmni am rai filiynau o bunnau i gwmni Veolia yn 2006.

Fe'i etholwyd yn Gynghorydd Plaid Cymru ar gyngor Taf Elái yn 1987 a bu'n Gynghorydd Sir Morgannwg Ganol o 1981 i 1993. Yn fwy diweddar bu'n cynrychioli plaid Gwlad ar Gyngor Cymuned Ynysybwl.

Roedd yn gefnogol iawn i weithgareddau Cymraeg a hefyd i chwaraeon yn yr ardal. Roedd ei gefnogaeth wedi achub tîm pêl-droed Pontypridd United rhag dod i ben.

Yn gymeriad lliwgar roedd yn y newyddion yn aml oherwydd ei fusnesau a'i weithgareddau gwleidyddol.

Cydymdeimlwn â'i deulu yn eu colled.

Newid Safle

Mae Siop Lyfrau Storyville wedi symud yn barhaol erbyn hyn i hen siop gelfi Badmans drws nesaf. Cafwyd wyl lyfrau i lawnsio'r agoriad gyda nifer fawr o awduron yn hybu eu cyhoeddiadau. Un ohonynt oedd Edwina Smart o'r Broadway. Mae hi wedi cyhoeddi llyfr sy'n ôrhain hanes Clwb Criced Trehopcyn.



Dysgu Cymraeg.

Mae bore Sgwrs a Phaned ar fore Iau yn Amgueddfa Pontypridd yn mynd o nerth i nerth. Mae croeso mawr i bobl sy'n dechrau dysgu Cymraeg, rhai sy angen datblygu mwy o hyder ac i siaradwyr rhugl, i ymuno gyda ni. Diolch o galon i bawb sy'n dod yn wirfoddol i'n helpu ar fore Iau.

Braf clywed bo cyfle arall i ymarfer siarad Cymraeg bob amser cinio dydd Mawrth yn Eglwys St Catherine Pontypridd. Mae'r ficer yn ayyddus iawn i groesawu siaradwyr newydd.

Cysylltwch â'r eglwys am fwy o wybodaeth

Calon Tâf

Galwch heibio i Calon Tâf Dydd Sadwrn Mehefin 21ain am banded a chacen diwrnod PARTI BACH PONTY ym Mharc Ynysangharad.

Elw'r caffî y mynd at Eisteddfod Pontypridd.



Clwb y Bont

Fel arfer mae Clwb y Bont wedi trefnu nifer o weithgareddau amrywiol.

Yn ddiweddar bu noson yng nghwmni Al Lewis, rhan o'i daith trenau. Braf i weld y Clwb yn orlawn a phawb yn mwynhau mas draw.



CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Gwella'n dda

Da gweld bod Bethan Samuel yn gwella'n dda ar ôl triniaeth i'w llygad yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Dawn Walters

Swyddfa Newydd

Agorwyd swyddfa newydd Cyngor Cymuned Gilfach Goch gyda diwrnod o hwyl ar 26ain Mai. Trosglwyddwyd adeilad "Y White Hut" yn Cambrian Avenue gan Gyngor Rhondda Cynon Taf i'r Cyngor Cymuned a'i ddatblygu yn Ganolfan Cymunedol. Yn ogystal â lleoliad ar gyfer gweinyddu y Cyngor Cymuned a chyfarfodydd y Cyngor, bydd yr adeilad ar gael ar gyfer defnydd y gymuned.

Bu noson ddifyr arall pan ddaeth y cwmni theatr Mewn Cymeriad gyda'i sioe ddiweddaraf Gwen y Witch. Drama gan Siân Melangell Dafydd am fywyd Gwen ferched Ellis o Landyrnog, y cyntaf o bump a grogwyd am wrachyddiaeth yng Nghymru yn y 16eg a'r 17eg ganrif. Cafodd y gynulleidfa wledd o berfformiad.

Yn ystod Gŵyl Pres Pontypridd fe ddaeth dau fand nodedig i chwarae tu allan i'r Clwb. Cafodd Band Pres Cathays a band y Parc a'r Dâr groeso arbennig gan gynulleidfa fawr yn mwynhau yng ngwres Canolfan Mai.



Croeso mawr i chi gyd i Glwb y Bont pan yn ymweld â Phontypridd.

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi Geraint Jones, un o sefydlwyr Cymdeithas yr Iaith a'r aelod cynta i gael ei garcharu, ar ôl cyhoeddi ei gyfrol, *Brwydr yr Iaith 1962-67*.



Emyr Llywelyn a Geraint Jones yn lansiad y gyfrol yng Nghanolfan Uwchgwyrfa, Clynnog Fawr

Beth yw eich gwaith?

Wedi hen ymdddeol.

Pa waith arall ydych chi'n ei wneud neu wedi ei wneud?

Pysgotwr, labrwr, dyn siwrin, ysgrifennydd Sir Gaernarfon Undeb Amaethwyr Cymru, gweithio mewn ffatri teipiaduron ym Mhorthmadog, athro cerdd teithiol, athro, prifathro.

O ble rydych chi'n dod?

Trefor, pentref chwarelyddol yn Arfon, Gwynedd.

Pa mor bwysig oedd eich magwraeth?

Hollbwysig – fel pawb arall ddyliwn i! Magwraeth ar aelwyd genedlaetholgar a chariadus ac mewn pentref diddosbarth, diwylliedig ac uniaith Gymraeg.

Ble rydych chi'n byw nawr?

Yn Nhrefor, yn yr un tŷ ag y ganwyd fy mam ynddo, a lle y trigai Taid a Nain.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?

Ysgol Gynradd Trefor – do.
Ysgol Ramadeg Pwllheli – naddo – arholiadau, Seisnigrwydd.
Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth – naddo – arholiadau, Seisnigrwydd, hiraeth, y cwrs gradd yn y Gyfraith yn ddiflastod llwyr.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya?

Fy rhieni tra chenedlaetholgar, yn enwedig fy mam. Fy nhad yn un o'r 609 a bleidleisiodd dros Lewis Valentine yn etholiad 1929. Dod yn ffrindiau wedyn â phobl fel Trefor a Gwyneth Morgan, Trefor ac Eileen Beasley, a llawer o Gymry twymgalon a gwladgar eraill, yn arbennig yn y coleg.

Pam cyhoeddi hunangofiant?

Nid wyf erioed wedi cyhoeddi hunangofiant. Nid dyna yw fy nghyfrwl ddiweddaraf, *Brwydr yr Iaith 1962-67*, er fod ynddi, yn anorfod, lawer o atgofion. Hynny oherwydd fy mod yng nghanol y frwydr iaith yn ystod y pum mlynedd dan sylw. Llyfr hanes ydyw hwn – hanes pum mlynedd cyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a'r brwydrau anodd ac arloesol a gafwyd, ac a roddodd sylfaen sicr i weithgareddau gwleidyddol y blynyddoedd dilynol.

Beth oedd y broses?

Cofio, casglu, cywain, cywiro celwyddau, casgliadau, cofnodi, cwtogi. Yna aiddrafftio a golygu, a gorfod dileu tua thraean y cynnwys oherwydd ei fod yn rhy hir.

Pam cyhoeddi nawr?

Pam lai? Byddai yfory bellach yn rhy hwyr. Eisoes bu farw'r rhan fwyaf o'r arweinwyr cynnar; does ond ychydig ohonom yn dal ar dir y byw. Roedd gwir angen gwneud cofnod manwl o'r hanes, gan mai'n bytiog, hyd yma (ac mewn ambell enghraifft, yn anghywir) y'i cyflwynwyd. Y gobaith hefyd yw y bydd yr hanes yn sgyrtian (ac ysbrydoli, gobeithio) y genhedlaeth swrth, hunanddigonol ac ofnus o 'genedlaetholwyr' honedig ein dyddiau presennol.

Beth sy'n eich gwylltio?


Cant a mil o bethau, yn enwedig rhagrith a hunanoldeb a hunanbwysigrwydd cynifer o genedlaetholwyr honedig, ynghyd ag ymgreinio parhaus ein pobl gerbron epil John Bull sy'n gwladychu'n bowld ein broydd.

Pam gafodd Cymdeithas yr Iaith ei sefydlu?

Ymateb wnaed i her ac anogaeth darlith anfarwol Saunders Lewis, 'Tynged yr Iaith,' yn Chwefror 1962, ynghyd â brwydr fawr, arloesol ac aberthol Trefor ac Eileen Beasley dros y Gymraeg yn Llangennech. Y pennaf reswm, wrth gwrs, oedd safle echrydus y Gymraeg a safai ar ymyl dibyn difodiant.

Pwy oedd y sefydlwyr eraill?

Fe'i sefydlwyd yn ffurfiol yn ystod Ysgol Haf Plaid Cymru ym Mhontarddulais, Morgannwg, ym mis Awst 1962 gan ddwsin ohonom. Fe'u henwir oll yn fy nghyfrwl (t. 28).



Wrth ymgyrchu, beth oedd y profiad gwaetha?

Agweddau ac ymatebion gwrthwynebus a ffaidd gymaint o'n cyd-Gymry i ymdrechion gwiw milwyr yr iaith. Enghraifft amlwg oedd Protest Dolgellau, Tachwedd 1965.

Beth oedd y profiad gorau?

Gweld y mudiad yn mynd rhagddo, yn dilyn cyfnod marwaidd, i weithredu'n gadarnhaol ac aberthol, gan ennill dychymyg a chalonnau cynifer o'n pobl ieuainc.

Beth oedd eich llwyddiant mwya?

Yn y cyfnod dan sylw, mae'n debyg mai ennill nifer o frwydrau dros statws swyddogol i'r Gymraeg, er nad digon hynny – o bell ffordd – wrth gwrs.

Y siom fwya?

Gweld crebachu diatal o'r fro Gymraeg drwy allfudiad cymaint o'n pobl ifainc yn troi cefn arni, a'u llefydd gweigion nhw yn cael eu llenwi gan fewnfudwyr barbaraid ac anhywaith.

Beth yw'r gwersi gafodd eu dysgu?

Y pennaf un, ysywaeth, fel heddiw, fod ein pobl yn wasaidd a hunanol, ac mai lleiafrif bychan iawn iawn ydi'r rhai sy'n fodlon gweithio ac aberthu o blaid y Gymraeg a hunaniaeth ein cenedl.

Rwy'n deall eich bod wedi derbyn anrheg arbennig pan gawsoch eich garchar Abertawe.

Ai cyfeirio at y botelaid o win a gefais oddi wrth fy nghyfaill, Saunders Lewis, ydach chi tybed? Mae'r hanes yn llawn yn y gyfrol (t. 252). Trueni na fuaswn wedi ymatal, a'i chadw fel cofrodd – petai ond y botel wag!

Ydych chi'n optimistaidd am ddyfodol yr iaith?

Disgwylir i ni oll ddweud 'Ydwyf'. Dyna'r drwg. Rydan ni'n methu'n lân â sylweddoli mai marw fel iaith fyw a wna'r Gymraeg os parheir y tueddiadau echrydus presennol. Tra pery'n hieuenctid i ddiflannu o'r broydd Cymraeg i Loegr a Chaerdydd, a pharhau'n ogystal o'r mewnlifiad difaol i'r un broydd, does gan y Gymraeg druan yr un gobaith yn y byd. Nid siarad gwag, pesimistaidd yw hyn, ond datgan ffaith – mae'n digwydd dan ein trwynau ac mor amlwg â llaid ar farch gwyn. Os pery'r dinistrio di-baid, fydd hi fawr o dro nes derfydd y Gymraeg, a'r cwbl y gellir ei obeithio amdano yw cenedl ail iaith (nad yw'n genedl mewn gwirionedd).

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant



Trip i'r parc

Llongyfarchiadau i ddsbarthiadau 2 a 7 am ennill cystadleuaeth Siarter Iaith yr ysgol am ennill y nifer fwyaf o bwyntiau am siarad Cymraeg yn ystod tymor yr haf. Rydyn ni wedi bod yn aros am dywydd digon da i gael mwynhau chwarae a chymdeithasu yn y parc!



Rygbi Ysgolion Pontypridd

Llongyfarchiadau i SM, JP, GD, SR, RhH a JI am chwarae'n frwd dros dîm rygbi Ysgolion Pontypridd eleni. Cyrhaeddodd y tîm rownd derfynol Cwpan DC Thomas ar Fai 21ain a chwaraeodd y plant yn arbennig o dda. Da iawn chi!



O DAN YR WYNEB (Parhad)

Ydy'r iaith yn wynebu heriau gwahanol?

Yr un yw'r heriau yn 2025 ag yr oeddent ym 1962, ond ein bod yn wannach erbyn heddiw, er bod gennym ryw sefydliad a elwir 'Senedd'.

Beth yw'r atebion?

Yn y bôn yr un yw'r atebion hefyd – anogaeth Saunders yn 'Tynged yr Iaith' – penderfyniad, ewyllys, brwydro, aberth, ymdrech, geiriau nad ydyw ein gwladgarwyr honedig yn eu hoffi. A hynny 'heb anwadalu'.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i ymgyrhydd?

Y cyfan a ddywedwyd eisoes.

Mae teitl y gyfrol yn cyfeirio at 1962-67. Oes cyfrol arall ar y gweill?

Nag oes.

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd

Amherthnasol. Cwestiwn nodweddiadol ar gyfer pobl y Gweplyfr.

Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?

Un o'm pennaf rai ymysg llawer yw arwain Seindorf Trefor – hynny er 57 o flynyddoedd ac yn dal wrthi.

Dolen Gwales: <https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781800997004&tsid=4#top>

Brwydr yr Iaith 1962-67,
Geraint Jones, Y Lolfa, £14.99

Gwefan(nau) straeon lleol i ardal Rhondda Cynon Taf?

Mae prosiect Cwmni Golwg, Ymbweru Bro, am glywed wrth gymunedau yn ardal Rhondda Cynon Taf -hoffech chi ymuno â'r rhwydwaith a chael gwefan 'straeon lleol gan bobol leol'?

Cymerwch olwg ar yr 15 gwefan fro sydd i'w cael ar hyn o bryd trwy fynd i <http://www.bro360.cymru/> a llenwch yr holiadur i fynegi eich barn.

Os oes gennych chi gwestiynau, gallwch gysylltu â Rhian Hopkins Swyddog Prosiect Ymbweru Bro ardal Rhondda Cynon Taf

[rhianhopkins@golwg.cymru]

Gwefan(nau) straeon lleol i ardal Rhondda Cynon Taf?



Neu gallwch gael linc i'r holiadur yma - <http://www.tafodelai.cymru>

Dathlu Eid Mubarak

Diolch o galon i Dr Aeliya Zaidi a Laura Bracegirdle am ddod i ymweld â disgyblion y Meithrin i drafod dathliadau Eid Mubarak cyn y gwyliau Pasg. Cafodd y plant lawer o hwyl yn gwisgo gwisgoedd traddodiadol, blasu bwyd a chreu crefftiau arbennig.



Cwmni Adeiladu Taylor Wimpey

Diolch yn fawr i Francesca a Johanne o gwmni Taylor Wimpey sydd yn adeiladu tai newydd gyferbyn â'r ysgol am ddod i'n gwasanaeth i siarad â'r plant ynglŷn â rôl y gweithwyr, yr offer a ddefnyddir i adeiladu tai a sut i gadw'n ddiogel ar y safle adeiladu. Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen at gael gweld y pyllau dŵr sy'n cael eu creu ar y safle er mwyn denu a chynnal natur a bywyd gwyllt, yn ogystal â'r parc newydd fydd yn cael ei adeiladu.



LLANTRISANT PONTYCLUN Y GROESFAEN

Gohebwy'r y mis -
Geraint Wyn a Sara Davies

Harddu Pentre



Ers peth amser erbyn hyn, mae'r sawl sydd yn teithio drwy'r Groes-faen, ynghyd â thrigolion y pentref, wedi sylwi ar, ac wedi gwerthfawrogi'n fawr yr addurniadau lliwgar a dyfeisgar sy'n ymddangos i ddathlu'r Gwyliau a'r achlysuron arbennig eraill ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Criw bychan o ryw hanner dwsin o wirfoddolwyr sy'n gyfrifol am drefnu a chreu'r arddangosfeydd hyn.

Yn ogystal â hynny, ychydig o flynyddoedd yn ôl, penderfynodd y cwmni bach ychwanegu at ei weithgarwch trwy gwrdd yn wythnosol, gyda'r bwriad o weddnewid darn o dir ynghanol y pentref oedd yn ddiffaith a digon hyll yr olwg. Bellach mae'r llain honno, wrth ochr y mynediad i *Y Parc* a *Park Lane* yn ardd ddeniadol a'i harddwch lliwgar a'i chyfoeth yn wledd i'r llygad. Yn gyfangwbl, amcangyfrifir bod cannoedd o blanhigion amrywiol o bob lliw a llun wedi'u plannu yno. Mae llewyrch a ffyniant rhyfeddol yr ardd yn adlewyrchiad o'r gwaith caled cychwynnol a'r gofal cyson amdani gan y criw ffyddlon o wirfoddolwyr sydd yn



cwrdd bob bore Iau trwy gydol y flwyddyn, bron. Mawr yw ein diolch am eu gofal a'u balchder yn eu cymuned.

Os ewch chi i fyny'r rhipyn, o'r ardd, rhyw ddeg llath ar hugain, fe ddowch chi at *Y Parc*, sef clwstwr o dai braf yn amgylchynu darn sylweddol o dir, "*The Green*", i'r mwyafrif o'r trigolion. Ond mae'r darn hwn o dir yn bur wahanol i'r ardd ar y gwaelod. Mae'n gwbl wastad â'i wyneb glaswyrdd pert, dan gysgod coed gwarchodol, unwaith eto yn adrodd cyfrolau am y gofal eithriadol sydd amdano.

Bron yn ddieithriad, y sylw cyntaf gan unrhyw ddieithryn sydd yn ymweld â'r Parc, yw pa mor ddeniadol a hardd yw'r olygfa. A does dim rhyfedd, oherwydd mae'r tir hwn yn derbyn yr un sylw a thriniaeth fanwl â sawl cwrs golff yn yr ardal. Nid criw o wirfoddolwyr sydd yn gofalu am y lawnt fawr hon ond un dyn bach, sef David Morgan, a hynny ers bron i hanner can mlynedd bellach. Ni chafodd y tir erioed ei fabwysiadu gan y Cyngor lleol, a chyfrifoldeb y trigolion yw gofalu amdano. Methiant fu'r ymgais i gael cwmni proffesiynol dibynadwy i ymgymryd â'r gwaith yn rheolaidd, felly stori wahanol fydd hi petai David ddim wedi dod i'r adwy nôl ynghanol saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Bellach mae David wedi ymddeol ers sawl blwyddyn, a chanddo mwy o amser i drin a thrafod y gwair, ond roedd yn gofalu am y lawnt fawr yr un mor ddyfal cyn rhoi'r gorau i'w waith fel uwch beiriannydd sain yn HTV.

Beth sydd yn fwy hynod fyth yw mai llafur cariad yw hyn i gyd. Mae'r trigolion yn cyfrannu arian at brynu, cynnal a chadw'r peiriannau a gwrteithio ond mae David wedi gwrthod derbyn yr un geiniog am yr oriau dirifedi o lafur ar hyd yr holl flynyddoedd - allan yn gwrteithio, yn torri, yn cywain a bagio'r gwair gymaint â dwywaith yr wythnos ynghanol haf. Diolch o galon David am dy holl waith diflino am bron i hanner canrif. Campwaith yn wir!



Drama Newydd

Llongyfarchiadau i Noni Lewis a enillodd gystadleuaeth drama newydd o'r enw 'Grandramodi' ynghynt yn y

Merched y Wawr Tonysguboriau

Cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Mati Roberts pan ddaeth hi atom i ddweud am ei hanes a hanes cychwyn ei busnes.



Nyrs ydy Mati ond ers bod yn Ghana flynyddoedd yn ôl a gweld sefyllfa 'addysg' yno mae hi'n treulio llawer o'i hamser yn codi arian at ysgol mae hi a Kofi, ei ffrind wedi sefydlu. Enw ei busnes ydy Matico ac mae hi'n gwneud gwaith fel clustogau a gemau o ddeunyddiau lliwgar iawn. Gellir gweld peth o'i gwaith ar werth yn Giles Gallery ym Mhontyclun.

Roedd y sgwrs a'r sleidiau yn agoriad llygaid ac yn gwneud i ni werthfawrogi pa mor lwcus ydym ni yma.

Margaret White

flwyddyn. Cynllun ar y cyd rhwng Cymdeithas Drama Gymraeg Abertawe â chriw Grand Ambition yn Theatr y Grand Abertawe yw 'Grandramodi'. Enillodd y wobwr am greu amlinelliad o ddrama o'r enw '*Cymru, Dychymyg Creulon*' a gafodd ei sbarduno ar ôl i'w mab hynaf adael cartref i fynd i ffwrdd i'r coleg. Tyfodd y syniad ymhellach i fod yn ddrama seicolegol yn ymdrin â'r gwahanu rhwng plentyn a rhiant. Bellach mae Noni wrthi'n cydweithio i ddatblygu'r syniadau gyda Manon Eames, un o feirniaid y gystadleuaeth. Roedd Noni yn ddisgybl yn Y.G.G.Llantrisant ac Ysgol Gyfun Llanhari. Bu'n byw am gyfnod rhwng 2014 a 2020 yn Boston yn yr Unol Daleithiau gyda'i gŵr a'i dau fab. Erbyn hyn maent wedi ymgartrefu yn Nhrefynwy.

Pob lwc Noni. Edrychwn ymlaen at weld y ddrama orffenedig yn cael ei llwyfannu cyn bo hir.

Siop yn cau

Mae siop y pentref yn y Groes-faen ar fin cau gan fod y perchennog am symud i fyw i Fryncethin. Siop fach oedd yn gwerthu amrywiaeth o nwyddau, wyau ffres a phapurau yw *Dan y Bryn*. Bydd y pentrefwyr ar eu colled oherwydd dyma'r tro cyntaf ers sawl blwyddyn na fydd siop o unrhyw fath yn y pentref.

Colofn Blasus a lachus

Eluned Davies-Scott

Am berl bach!

Ydych chi erioed wedi rhoi sylw teg i'r lemwn bach sy'n eistedd yn dawel ac yn anwedus yn eich powlen ffrwythau? Tybed ai'r lemwn Jif plastig wnaethoch chi ei ysgeintio â siwgr ar eich crempogau am y tro cyntaf?

Dwi am rannu hanes a nodweddion y perl melyn hwn er mwyn i chi ei werthfawrogi

ychydig yn fwy. Mae'r sudd a'r croen yn treiddio trwy ryseitiau melys a sawrus ledled y byd; ceir ei defnyddio i flasu cacennau, pwдинаu, sorbets, hufen iâ ac eisins; mewn marinadau, dresins a gwirodydd piclo. Gellir defnyddio'r sudd yn y cartref fel glanhawr naturiol, ffresnydd aer, lladdwr chwyn ac ymlid pryfed. Fe'i defnyddir hefyd mewn aromatherapi, at ddibenion meddyginiaethol ac mae'n gyfrannwr mawr o Fitamin C i bobl.

Mae lemonau wedi'u portreadu mewn paentiadau a chelfyddyd bop, wedi'u cynnwys mewn chwedlau gan Joan Didion a James Joyce, wedi chwarae rhan yn sefydlu'r Maffia ac yn cael eu dathlu gan David Lane a Marina Tweed yn eu llyfr **The**

Gourmand's
Lemon ac yn **For**
the Love of
Lemons gan Letitia Clark Mae'r enwog Jane Grigson yn ei llyfr **The**
Enjoyment of Food

yn cysegru dwy tudalen i lemonau ac yn cyhoeddi *'A pleasure northerners never forget is a first proof that lemons actually grow on trees'!*

Roedd ffrwyth sydd bellach yn costio ceiniogau ar un adeg yn brin ac yn ddrud yng Nogledd Ewrop. Fel gyda llawer o'n bwydydd mae ganddynt hanes diddorol. Er nad yw eu tarddiad yn glir, mae Alan Davidson (**The Oxford Companion of Food**) yn cynnig tystiolaeth bod y lemwn yn ganlyniad hybrid dau gam, yn gyntaf rhwng sitron a leim yng nogledd-orllewin India ac yna gyda pomelo yn y Dwyrain Canol. Defnyddiwyd y goeden lemwn i ddechrau fel planhigyn addurniadol ac fe'i gwerthfawrogydd am ei rhinweddau meddyginiaethol ym mhalas Sultan yr Aiff a Syria yn y 12G. Mae'r crynodeb meddygol a ysgrifennwyd gan feddyg Saladin yn cynnwys y rysâit cyhoeddedig gyntaf hysbys ar gyfer lemonau cadw yn ogystal â pharatoadau o lemwn ar gyfer adfer iechyd.

Roedd Scurvy yn broblem gynyddol i iechyd morwyr ar fordeithiau hir o gyfnod Columbus ymlaen. Ychydig a wyddai'r

morwyr o Bortiwgal a'r Eidal fod y ffrwyth oeddent yn eu cario i'r Byd Newydd yn iachâd ar gyfer y clefyd gwanychol hwn. Er nad oedd y cysylltiad rhwng y clefyd a fitamin C wedi'i ddeall yn llawn, roedd rhai morwyr wedi sylwi ar effeithiau iachaol ffrwythau sitrus ar ddiwedd y 15C. Ym 1747 cynhaliodd meddyg llynges yr Alban, James Lind, un o'r treialon clinigol cyntaf erioed ar forwyr yn dioddef o scurvy a chadarnhaodd fod ychwanegu'r sudd lemwn i'w diet o fudd i'w hiechyd. Cymerodd tan yr 20C cynnar i ynysu Asid Asgorig a adwaenir yn gyffredin fel Fitamin C.

Mae fitamin C yn amddiffyn celloedd rhag difrod. Mae'n helpu i ffurfio collagen, sy'n bwysig ar gyfer esgyrn arferol, deintgig, dannedd a chroen. Mae hefyd yn helpu'r system imiwedd a'r system nerfol i weithredu'n normal. Gall bwydydd sy'n uchel mewn fitamin C a gwrthocsidyddion eraill helpu i gryfhau'r system imiwedd yn erbyn y germau sy'n achosi'r annwyd cyffredin a'r fflui.

Gadewch imi ddychwelyd at ddefnyddiau coginio y lemwn. Mae yna nifer o fathau o lemonau, a'r rhai mwyaf cyffredin yn ein siopau yw Eureka a Lisbon, mae ganddyn nhw flas sur, tangy. Mae lemonau Meyer yn felys ac yn llai asidig, mae Ponderosa yn lemonau mawr â chroen trwchus. Mae sudd lemwn tua 56% o asid sitrig sy'n rhoi blas hynod o sur. Yn gynhwysyn mewn lemonêd, diodydd meddal, a choctels, defnyddir sudd lemwn hefyd mewn marinadau ar gyfer pysgod lle mae'n niwtraleiddio asidau amino i ohirio pydredd. Mewn cig mae'r natur asidig yn torri i lawr ffibrau collagen caled a'u tyneru. Defnyddir sudd lemwn hefyd fel cadwolyn tymor byr i fwydydd fel afalau, bananas ac afocados sy'n tueddu i ocsideiddio a thro'i'n frown ar ôl cael eu sleisio. Defnyddir lemonau cyfan i wneud marmalêd, ceuled lemwn a gwirod lemwn, tra bod sleisys lemwn a chroen lemwn yn cael eu defnyddio fel garnais ar gyfer bwyd a diodydd. Defnyddir croen lemwn wedi'i gratio i ychwanegu blas at bwdinau, reis a seigiau eraill sy'n cael eu pobi.

Yn y Dwyrain Canol mae lemonau yn cael eu cadw'n draddodiadol mewn jariau neu gaseggi o halen sy'n treiddio i'r croen gan eu meddalau a'u halltu fel eu bod yn para bron am gyfnod amhenodol. Mae'r blas hallt-tangy yn cyfrannu at amrywiaeth o brydau, gan gynnwys stiwiâu, cawliau, saladau a sawsiau sy'n arbennig o gyffredin mewn bwyd Moroco a Gogledd Affrica.

Efallai eich bod wedi blasu'r limoncello ar ymweliad ag Arfordir Amalfi. Mae hwn wedi'i wneud o groen lemonau Femminello St. Teresa sydd wedi'i drwytho mewn alcohol niwtral nes bod yr olew yn cael ei ryddhau; na mae'r hylif melyn sy'n deillio o hyn yn cael ei gymysgu â siwgr. Gellir ei



wneud gartref gan ddefnyddio fodca. Y Granita lemwn gan y gwerthwyr-stryd lleol oedd ein hoff ffordd o dorri syched pan ar yr Arfordir Amalfi yn yr haf.

Mae lemonau yn fy mowlen ffrwyth bob amser oherwydd eu bod mor ddefnyddiol:

- Ar gyfer dolur gwddf dwi'n gwneud diod lemwn a mêl a lemonêd syml ar gyfer diod haf braf yn ogystal â 'champagne' blodyn ysgaw.

- Ar gyfer pwidin cyflym a rhad, rwy'n gwneud Pwidin Lemwn hunan-saws (mae gan BBC Good Food fersiwn y gellir ei defnyddio mewn microdon); neu Fflan Lemon Oer syml o'r llyfr Hamlyn gyfeiriais ato ym mis Mawrth.

- Mae fy hamper Nadolig bob amser yn cynnwys croen lemon ac oren wedi'u sychu mewn siwgr, â bisgedi lemon a charidym.

- Mae cacen drizzle lemwn (Mary Berry's wrth gwrs!) bob amser yn ffefryn.

- Defnyddiol ar gyfer cawl sy'n rhy sbeislyd rwy'n ychwanegu sudd lemwn.

- Mae sudd lemonau yn ryddhau'r pectin o ffrwythau wrth wneud jam ac yn ychwanegu at y blass.

- Ar gyfer dresin vinaigrette gydag olew a pherlysiâu o'r ardd.

- Mewn marinadau gyda sbeisys/perlysiâu ar gyfer cigoedd.

- Ar gyfer stwffin, yn enwedig i bysgod cyfan.

- Mewn amrywiaeth o ryseitiau cyw iâr a phorc mwn wedi'i phiclo mewn halen yn ymddangos yn aml mewn ryseitiau'r Dwyrain Canol. Dwi'n hoff iawn o rai sydd yn llyfr coginio **'Persian'** gan Sabrina Ghayour a rysetiau Yotam Ottolenghi.

Mae fy 'arbrofion' diweddar gan Rachel Roddy - Ffenigl gyda Saws Pistachio, Lemwn ac Ansiofi (wedi'i weini gyda stêcs cig oen) a Tharten

Cacen Crymbl Lemon blasus y gellir ei gweini fel pwidin neu gyda phaned o de Earl Grey. Roddais gynnig ar y Focaccia lemwn a brenhinllys o gylchgrawn Tesco hefyd. Os oedd hanner lemon dros ben dwi'n ei defnyddio i gadw'r oergell i arogl'n ffres ac mae tafelli o lemwn yn cael eu rhewi i'w hychwanegu at ddiodydd.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS]
(am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**

Mis Mehefin:

1 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
8 – Oedfa dan ofal y Parchedig Denzil John
15 – Oedfa dan ofal Huw Lloyd
22 – Oedfa dan ofal Sian Meinir
29 – Oedfa dan ofal Allan Cook

Mis Gorffennaf:

6 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
13 – Oedfa dan ofal Eirian Dafydd
20 – Cyd-addoli yn y Tabernacl, Efail Isaf (am 11:00 a.m.)
27 - Cyd-addoli (Bethlehem / Tabernacl) ym Methlehem

---oooOOOooo---

Fel llawer ohonoch dwi'n siwr, fe gefais fy magu mewn ardal lle byddai drysau'r tai ar agor y rhan fwyaf o'r amser, a lle byddai cymdogion yn galw unrhyw bryd o'r dydd a'r nos am sgwrs, paned o dê, a darn o gacen neu fara menynd.

(A phetae y drws yn digwydd bod ar glo, roedd y goriad yn weddol amlwg ar y silff fechan uwch ei ben yn wahoddiad i unrhyw un gael mynediad i ymochel rhag y gwynt neu'r gawod law.)

Roedd 'na gymdeithas glos o'n cwmpas yn gofalu amdanom, a phawb o'n cydnabod fel pe baem yn perthyn i'n gilydd, yn aelodau o'r un teulu estynedig a oedd yn rhannu'r un dyheadau a gobeithion mewn bywyd.

Yn wir, o gwmpas y Sgwâr, lle roedd ein ty ni, roedd gennyf 'Antis ac Yncls' di-ri, a oedd yn hael eu cymwynas a'u cymorth, yn rhoi anrhegion penblwydd a Nadolig i mi a'm dwy chwaer, a fy mam a nhad innau yn eu tro yn dangos yr un caredigrwydd a haelioni wrth y teuluoedd eraill.

Cyn hir a hwyr daeth rhywun i sylweddoli nad oedd 'na berthynas 'go iawn' yn bodoli rhwng ein teulu ni a gweddill pobl y Sgwâr, ond bu'r parch

i'r berthynas, serch hynny, barhau yn ddi-dor hyd nes bod yr olaf ohonynt wedi gadael y fuchedd hon.

Coffa da am Anti Jini, Anti Ceren, Anti Beti, Anti Elen, Yncl Moi, Yncl Osborne, Yncl Dic ac Anti Mina (er mai fel 'Anti' yn unig y cyfeiriem ati hi – y ddau ohonynt yn cadw'r siop 'da-da' drws nesaf i'n tŷ ni, ac yn gwneud yr Hufen Ia mwyaf bendigedig bob haf).

Roedd 'na Antis ac Yncls 'go iawn' yn galw yn tŷ ni wrth gwrs – y rhan o'r teulu fyddai'n byw yn y pentrefi agosaf – Nebo, Nasareth, Llanllyfni a Charmel. Fel arfer byddai pnawn / nos Wener yn gyfnod eu croesawu hwy i'r tŷ oherwydd byddai byseidiau o bobl o'r pentrefi cyfagos yn ymweld a Phenygroes bryd hynny i fynd i'r Tŷ Doctor, a hwythau yn eu plith!

A chyn dychwelyd i gysgod Mynydd Cilgwyn a Mynydd Graig Goch, beth bynnag fyddai'r afiechyd fyddai yn eu blino, byddai gwledd o 'fish a chips' yn bresgripsiwn hanfodol i'w gyrru adre gyda boliau llawn a gwen ar eu hwynebau!

Roedd 'na ambell Yncl Bob yn bodoli yn ogystal, un ohonynt yn berthynas teuluol, ac a fagwyd, yn rhannol, yn ôl y sôn gan fy nain – dim rhyfedd felly ei fod ef a fy mam yn gryn ffrindiau trwy gydol eu hoes.

Roedd Yncl Bob arall yn ddydd glo, gyda'i lori fechan yn cael ei chadw yn y lôn gefn tu ôl i'n tŷ ni. Robert Williams oedd ei enw llawn, ond fel Bob Sam y cai ei arddel gan ei gydnabod. Yn ogystal â chario sacheidiau o lo i gartrefi'r cylch i sicrhau bod tai 'di-wres canolog' y cyfnod hwnnw yn ddi-ddos, roedd Yncl Bob yn cadw moch.

A dyna wledd i ni'r plant oedd cael gweld yr hwch yn y twlc mochyn yn bwydo'r perchyll swnllyd wedi'r esgor.

Yn ei amser sbar, byddai Yncl Bob yn ymfalchio yn ei gar mawr – ni chofiaf ei wneuthuriad, ond fe gofiaf y sglein ar ei baent du, a'r cromiwm ar y ffendar a'r olwynion yn disgleirio wedi'r mynych bolishio. Byddai'n hoff o gyfeirio at y bathodynau ar y ffendar – yn gydnabyddiaeth o yrru gofalus ers degawdau, a'r rhif yn y cylch crwn yn y canol yn cael ei newid yn flynyddol yn gadarnhad o hynny.

Roedd Yncl Bob arall yn ymweld a'n cartref pan fyddai'n dychwelyd i'w gynefin – er mor anaml y digwyddai hynny. Cyfaill fy nhad o ddyddiau bore oes – gwas priodas fy nhad a mam ym mis Hydref 1940 – ond a oedd, ers 60au'r ganrif ddiwethaf, wedi ymfudo i fyw i Seland Newydd gyda'i deulu. Bob Nadolig, cyrrhaeddai tun cyfan (saith pwys) o fêl gorau'r wlad honno ein tŷ ni, wedi cychwyn ar ei daith, ar long, ers

mis Medi. Dyna'r mêl gorau i mi ei flasu erioed – 'roedd fel taffi trwchus - ac yn eli at bob briw yn ogystal. Pan beidiodd y tun mêl a chyrraedd, gwyddem fod taith yr un a'i hanfonodd hefyd wedi dirwyn i ben!

On os collais i fy Yncls Bob, bob un ohonynt, fe wyddom mwyach fod 1.3 biliwn o boblogaeth y byd wedi croesawu Yncl Bob newydd i'w plith yn ystod y dyddiau diwethaf yma.

Roeddwn ar daith yn yr Eidal ar Fai yr 8fed, pan ddangosodd sianeli teledu y wlad y mŵg gwyn (y "fumata bianca") yn chwyrlio o simdde Capel y Sistine yn y Fatican, i ddyodi "Habemus Papam – mae gennym Bâb".



Ar amrant, gwelwyd yr Americanwr, y Cardinal Robert Francis Prevost, ("Bob o Dolton, de Chicago") yn trawsnewid i fod yn Bâb Leo XIV, y 266ed yn olyniaeth Sant Pedr.

Ac er na fedrwn ddilyn llawer o'r trafod ar y cyfryngau (na'r wasg) wedi'r ethol, roedd yn amlwg o ymarweddiad a thaerineb y rhai oedd yn trafod fod y dewis wedi bod yn un hynod ddiddorol.

Yn Offeren gyntaf ei weinidogaeth ar Sgwâr Sant Pedr ar y 18fed o Fai, meddai:-

"Fe'm dewisiwyd, heb unrhyw haeddiant fy hunan, ond 'nawr, yn grynedig a gydag ofn, fe ddof i'ch plith fel brawd, sy'n dymuno bod yn was i'ch ffydd a'ch llawenydd, gan gyd-gerdded gyda chwi ar hyd llwybr cariad Duw, oherwydd dyna ei ddyhead i ni i gyd fod yn un teulu."

Ac ymhellach:-

"Mae'n byd, ar hyn o bryd, yn llawn anghytgord, ac mae gormod o ddolur oherwydd atgasedd, trais, rhagfarn, ac ofn gwahaniaethau; a pharadeim economaidd sydd yn bygwth adnoddau'r Byd, gan wthio'r tlotaf i'r ymylon eithaf..."

...Gyda'n gilydd, fel un, yn frodyr a chwirydd, gadewch i ni gerdded tuag at Dduw a charu ein gilydd."

Croeso i ti i'n plith Yncl Bob!

Colofn Blasus a lachus

(Parhad)

Gorffennaf gyda chyfieithiad o'r paragraff sydd yng nghyflwyniad Jane Grigson i lemonau 'Ychwanegaf ail bleser at hynny, eistedd allan yn yr awyr agored yn Limone, ar Lake Garda, yfed i mewn yr heulwen boeth â'r Limone Spremuta oer cyntaf... gyda siwgr yn casglu ar waelod y gwyrdr, mor bleserus o asid fel ei fod yn gwneud eich gwddf ychydig yn ddolurus, am ychydig.' Dyddiau hapus!



Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Cathod Bach yn y Derbyn

Diolch i Amelia a'i Mam am ddod â'r cathod bach i ni gael gweld eu bwydo.



Llwyddiant yn Aberystwyth.

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion aeth i Aberystwyth i gystadlu yn nhrnament Pêl-droed Bl. 3 a 4, Rygbi 3 a 4 a Rhedeg Traws-gwlad. Rydym yn falch iawn o bob un ohonynt. Daeth ein tîm Pêl-droed yn 3ydd yng Nghymru a'n tîm Rygbi hefyd yn gorffen yn yr 8 uchaf. Arbennig blant!



Criw Eco yn Casglu Sbwriel

Mae'r Criw Eco wedi bod yn helpu casglu sbwriel a chadw'r parc leol yn såff.



Paratodau Gŵyl Gerddoriaeth Castellau

Bu Bl.6 a Chewri Castellau yn brysur yn creu posteri a baneri i hysbysebu ein Gŵyl Gerddoriaeth.




Ymweliad Megan Bowen

Diolch yn fawr i un o'n cyn-ddisgyblion, Megan am ddod i drafod ei thaith ysbrydoledig a rhannu eu doniau ym myd pêl-droed gyda'n disgyblion.



Gweithdy Codio Bl.4

Roedd Bl.4 wrth eu bodd yn codio gyda Rhys o Technocamps.



Llongyfarchiadau George!

Llongyfarchiadau mawr i George o Flwyddyn 3 sydd wedi arwyddo cytundeb pêl-droed gydag Abertawe. Gwych!



Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Gwobr Aur y Siarter Iaith

Llongyfarchiadau anferthol i'r Criw Cymraeg am weithio mor galed i ennill Gwobr Aur y Siarter Iaith i'r ysgol. Buont yn gweithio'n galed iawn i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Nhonyrefail ymysg nifer fawr o weithgareddau eraill.



Y Criw Cymraeg yn dathlu ennill Gwobr Aur Siarter Iaith

Gwobr Gwyddonwyr Gwych – Llwyddiant Cenedlaethol

Llongyfarchiadau mawr unwaith eto eleni i Ddosbarth Mr Hughes ar ennill gwobr "Gwyddonwyr Gwych" fel rhan o brosiect gwyddonol ar y cyd rhwng Amgueddfa Cymru a'r Edina Trust. Daethant yn drydydd trwy Gymru am eu gwaith yn astudio bylbiau'r gwanwyn.



Llwyddiant Dosbarth Blwyddyn 5 a 6

Llwyddiant Celf a Chrefft

Mae Isaac Martin-Williams o Flwyddyn 4 wedi bod yn hynod o lwyddiannus yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd eleni - gan ennill 2 wobwr gyntaf ac un drydedd wobwr yng nghystadlaethau creu cymeriad cartŵn a ffotograffiaeth. Ymdrech ardderchog!



Diwrnod Seren a Sbarc

Diolch i'r criw Cymraeg am drefnu gweithgareddau amrywiol i ddathlu diwrnod Seren a Sbarc. Bu'r disgyblion wrthi'n brysur yn dangos eu creadigrwydd wrth ddathlu.



Bl 3 yn Dathlu Diwrnod Seren a Sbarc

Twrnament Pêl-Fasged

Bu'r tîm Pêl-Fasged yn cystadlu yn Nhrnament Valley Hoops yng Nghanolfan Hamdden Rhondda Fach yn ddiweddar. Cafwyd perfformiad da iawn ganddynt ac fe ddaethont yn bedwerydd.



Tîm Pêl Fasged Blwyddyn 6

Cofio Diwrnod VE

Aeth cynrychiolaeth o Flwyddyn 6 i'r gwasanaeth ym mynwent Trân i gofio'r rhai a golodd eu bywydau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bu disgyblion Blynnydoedd 3 - 6 yn dysgu am hanes y diwrnod arbennig hwn fel rhan o'u gwaith y tymor hwn ar effaith yr Ail Ryfel Byd ar fywyd pob dydd pobl gyffredin.



Gwasanaeth Coffa Diwrnod VE



Blwyddyn 3 -6 yn dysgu am ddiwrnod VE

Ysgol Creigiau



Cyflwyno i'n Llywodraethwyr



Gwaith Celf a Chrefft gwych ein disgyblion

Cyfarfod â Llywodraethwyr ein Hysgol

Nos Iau, cyn yr hanner tymor, daeth 25 o ddisgyblion Blwyddyn 6 i'r ysgol am 6.30yh i fynychu Cyfarfod y Llywodraethwyr. Roedd aelodau pob pwyllgor ysgol yn bresennol - Cyngor Ysgol a Hawliau Plant, Eco, Lles, SNAG, Criw Cymraeg a Siarter Iaith. Siaradodd pob un yn glir ac yn wybodus am y gwaith maent wedi bod yn gwneud eleni. Roedd y Llywodraethwyr yn canmol eu proffesiynoldeb ac yn rhyfeddu at eu haeddfedrwydd a'r gwaith da roedd pob pwyllgor yn gwneud yn yr ysgol. Arbennig bawb!

Llwyddiant Sgïo

Cystadlodd Eiry, Awen, Monika, Alys, Eifion, Spencer, Aled, Sylvie, Gwenllian, Maddie, Mali, Niall, Tina, Poppy, Gwilym, Erin a Tristan yng nghystadleuaeth 'Snowsport' Cymru a gynhaliwyd yng Nghanolfan Sgïo Caerdydd yn ddiweddar. Cawsant lawer o hwyl ac ar ddiwedd y digwyddiad fwynheuron nhw seremoni wobrwyo. Rhyngddynt dyfarnwyd 9 medal iddynt. Am gamp - rydyn ni'n falch iawn o bob un ohonynt.



Y Pwyllgor Eco'n Casglu Sbwriel

Y tymor hwn aeth aelodau'r Pwyllgor Eco o amgylch tir ein hysgol i weld faint o sbwriel oedd ar lawr. Ni ddaethant o hyd i lawer o gwbl - sy'n newyddion da. Buon nhw hefyd yn casglu sbwriel o amgylch y pentref er mwyn cadw Creigiau'n dwt a'n daclus. Nid oeddent wedi dod o hyd i lawer o sbwriel o gwmpas y strydoedd. Fodd bynnag, yn anffodus, fe ddaethant o hyd i dipyn o gwmpas ardal y parc. Maent wrthi'n creu poster i chynllun gweithredu ar gyfer y parc a'r ardal gyfagos. Cofiwch godi'ch

sbwriel os gwelwch yn dda er mwyn cadw Creigiau'n daclus.



Ein Pwyllgor Eco'n casglu sbwriel



Y Pwyllgor Eco'n casglu sbwriel o amgylch y pentref

Gweithdai MI

Yn ddiweddar cyflwynodd Luke, o Dîm Addewid Caerdydd, cyfres o weithdai MI i'n disgyblion yn y Feithrinfa, Nursery, Derbyn, Reception, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Roedden nhw i gyd wedi mwynhau dysgu sut i godio robot. Diolch, Luke!

Arwerthiant Lolis Iâ

Diolch yn fawr iawn i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu Arwerthiant Lolis yn ddiweddar ac i bawb am gefnogi. Diolch i'n tîm gwerthu gwych o Flwyddyn 6 - fe werthon ni 262 o lolis a chodion ni £197.85! Yr union beth oedd ei angen ar bawb ar ôl diwrnod cynnes yn yr ysgol.

Sesiynau Criced

Bob dydd Mawrth y tymor hwn, cyflwynodd Brad Wadlam o Griced Cymru sesiynau criced i'n disgyblion Blwyddyn 4 a Blwyddyn 5. Mae'r disgyblion wedi bod wrth eu boddau yn y sesiynau.

Cystadleuaeth Clef, Dylunio a Thechnoleg yr Urdd

Cystadlodd ystoddeg deg tri disgybl o'r ysgol yng nghystadleuaeth Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Urdd. Nos Fercher, 14eg o Fai, cynhaliwyd seremoni wobrwyo yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd. Cafodd deg disgybl eu gwobrwyo am eu gwaith celf.

1af: Idris (Dosbarth 2) - Ffotograffiaeth: cyfres o luniau lliw
 2il: Ella (Derbyn) - Ffotograffiaeth: cyfres o luniau lliw
 2il: Alys (Derbyn) - Ffotograffiaeth: cyfres o luniau du a gwyn
 2il: Gruffydd (Dosbarth 1) - Ffotograffiaeth: llun lliw
 2il: Ives (Dosbarth 1) - Ffotograffiaeth: llun du a gwyn
 2il: Rosie (Dosbarth 1) - Graffeg Cyfrifiadurol
 3ydd: Eiry (Dosbarth 6) - Cymeriad Cartŵn
 3ydd: Evie (Dosbarth 4) - Ffotograffiaeth: llun lliw
 3ydd: Rudi (Derbyn) - Ffotograffiaeth: cyfres o luniau du a gwyn
 3ydd: Dewi (Derbyn) - Ffotograffiaeth: cyfres o luniau lliw

Taith Blwyddyn 4 i Fae Caerdydd

Ymwelodd Dosbarth 4 a Class 4 â Bae Caerdydd i ddsygu mwy am genhedlaeth Windrush a sut mae'r bae wedi newid dros y blynyddoedd. Roeddent hefyd wedi mwynhau taith ar y dŵr ac ymweliad ag Adeilad y Pierhead.



Dosbarth 4 yn heulwen Bae Caerdydd

Ysgol Creigiau (Parhad)

Gan bod eu hymddygiad yn wych drwy gydol y dydd a'r tywydd yn odidog, fe brynodd y staff hufen iâ o Cadwaladers iddynt ac fe fwynheun nhw eu fwyta tra'n eistedd ym Mhlas Roald Dahl yn gwrando ar gerddoriaeth o'r Caribî o'r bar cyfagos! Am daith fythgofiadwy!

Gweithdai 'Gwyddoniaeth Wedi'i Symlhau'

Mwynheudd disgyblion Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 weithdai 'Gwyddoniaeth Wedi'i Symlhau'. Dysgodd y disgyblion lawer o ffeithiau a themau gwyddonol newydd, gan gynnwys dysgu am olau a gwyddonwyr Cymreig. Cafodd pawb gyfle i wisgo sbectol haul i brofi a oeddent wedi'u polareiddio ai peidio a chanfod sut mae prism yn rhannu golau gwyn mewn i sbectrw. Mwynheudd pawb y gweithdai.

Hyfforddiant Kerbraff

Cafodd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 Blwyddyn 2 sesiynau o hyfforddiant Kerbraff yn ddiweddar. Strategaeth genedlaethol yw Kerbraff a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n dysgu plant ym Mlwyddyn 1 a 2 sut i fod yn gerddwyr mwy diogel drwy fynd â nhw ar ffyrdd a dangos iddynt sut i wneud y penderfyniadau cywir i gadw'n ddiogel.



Dosbarth 1 yn dysgu sut i fod yn ddiogel ar y ffordd fawr

Diwrnod Seren a Sbarc

Dathlon ni 'Ddiwrnod Seren a Sbarc' yn yr ysgol trwy gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau hwyliog. Roedd ein disgyblion ifancaf wedi gwrando ar ganeuon Cymraeg a chael disgo, wedi lliwio Seren a Sbarc, wedi creu eu



Derbyn yn mwynhau Diwrnod Seren a Sbarc



Y Feithrinfa'n mwynhau yn eu dillad coch, gwyn a gwyrd ar Ddiwrnod Seren a Sbarc

dyluniad eu hunain o Seren a Sbarc, wedi darllen llyfrau Cymraeg a chreu eu harch arwyr eu hunain allan o does. Am ddiwrnod llawn hwyl a sbri!



Dosbarth 6 yn mwynhau sesiwn Samba



EISTEDDFOD PONTYPRIDD 2025

Dydd Sadwrn 28 Mehefin
Capel y Bont, Ffordd Gelliwastad, Pontypridd



BORE COFFI

21.06.25
CANOLFAN CALON TAF
PARC COFFA YNYSANGHARAD
10:30-11:30

Mwynhau'r Gymraeg

dyngusymreig cymru
bwrddwrth cymru
Morgannwg / Gŵernogon

dyngusymreig cymru
bwrddwrth cymru
Morgannwg / Gŵernogon

HIRODYDD HAF

21.06.25 CŵB Y BONT 7PM
LOWRI EVANS + THE GENTLE GOOD
TŶCYNNAU: £12.50 (£15 AR Y DRWS)

WWW.MENTERIAITHRHCT.EVENTBRITE.COM





CŵB Y BONT
Menteriaith Rhct
Menteriaith Rhct

HELEDD FYCHAN

Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru

01443 853214
Heledd.Fychan@Senedd.Cymru
2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ
Heledd Fychan AS / MS
@Heledd_Plaid
@Heledd_Plaid

Plaid Cymru
Party of Wales

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronffeydd cyhoeddus





Dydd Seren a Sbarc

Cafwyd diwrnod llawn hwyl wrth i ni ddathlu dydd Seren a Sbarc yn Ysgol Awel Taf- lliwio, creu logo, disgo ar yr iard a llawer mwy! Llongyfarchiadau i Taya o flwyddyn 6 am greu'r logo buddugol!



Yr Ail Ryfel Byd

Fel rhan o sbardun eu thema newydd hanesyddol, daeth Glenys Myfanwy Jenkins i siarad gyda blwyddyn 3 i 6 am hanes y Blitz. Daeth hanes y Blitz ar Abertawe yn fyw iddyn nhw. Dysgon nhw llawer ac fe gafon nhw hwyl yn y gweithdy mewn cymeriad.



Pêl-droed

Llongyfarchiadau i dim pel droed Blwyddyn 5 a thîm Blwyddyn 6 am wneud yn wych yn y twrnament diweddar- heb gollu un gem! Arbennig!



Sain Ffagan

Er mwyn sbarduno dosbarthiadau Llanwynno, Glantaf a Melin Corrwg gyda'r thema newydd o dai a chartrefi ddoe a heddiw, aethon nhw am dro i Sain Ffagan i edrych, astudio a meddwl. Gwnaeth sbarduno llawer o gwestiynau ac ymchwilio!




Rhyfel

Diolch i Sargeant Mark Sainsbury am ddod i siarad gyda dosbarthiadau Ffynnon Ddu, Gamlas Morgannwg a Llys Cadwyn am fywyd yn y fyddin. Roedd y disgyblion yn gallu cymharu gyda'r ail ryfel byd.



Eisteddfod yr Urdd



Dawns Werin Mewn Arddull Draddodiadol
Merched Bl.9 ac iau: Iaf Beca Fflur
George, Adran Bro Taf

Canlyniadau Gwaith Cartref

Darlunio Llyfr Stori-a-llun: Iaf Bethan Jayne Aelod Unigol Cylch Llantrisant Barddoniaeth Bl.5 a 6: 2il Elsi Hughes, Ysgol Garth Olwg
Barddoniaeth Bl.7: 2il Gwenan Morgan, Ysgol Garth Olwg
Rhyddiaith Bl.2 ac iau 2il: Mabli Tomos Ysgol Garth Olwg
Rhyddiaith Bl.3 a 4 2il: Nel Spanswick Ysgol Garth Olwg
Rhyddiaith Bl.8 2il: Gwenno Roberts Ysgol Garth Olwg
Fideo TikTok Iaf: Gwenno Davies Ysgol Llanhari
Paentio Wyneb 2il: Gwenno Davies Ysgol Llanhari
Sgen ti dalent? 3ydd: Lowri Davies Ysgol Llanhari
Creadigol 2D Bl.10 a dan 19oed (unigol neu Grwp) 3ydd: Lexie Jones Coleg y Cymoedd
Ffotograffiaeth : Llundu a Gwyn Bl.10 a dan 19 oed 3ydd: Twm-Fon Pike Ysgol Garth Olwg
Ffotograffiaeth : Llundu Lliw Bl.3 a 4 2il: Lily John Ysgol Gynradd Gwauncelyn
Argraffu Bl.5 a 6 3ydd Teifi-Fon Pike Ysgol Gymraeg Evan James
Ffasiwn Bl.7, 8 a 9 (unigol neu Grwp) Iaf: Annabel Weston Cardinal Newman R.C.
Gwaith 3D Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu Grwp) 3ydd: Elyssa Hughes Coleg y Cymoedd
Uwchgylchu Bl.10 a dan 19oed (unigol neu Grwp) 2il: Elin Rees Ysgol Garth Olwg

Hen Lwybrau
Peintiadau, printiadau, lluniadau
Anthony Evans
ORIEL CANFAS
44a Glamorgan Street, Treganna,
CF5 1QS
Mai 29 - Mehefin 29 2025



Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth

Bws Beics

Mae Bws Beics Ysgol Gwaelod y Garth yn mynd o nerth i nerth! Mae'r bws yn cael ei gynnal pob mis ar ddyddiau Gwener ac rydym yn gweld niferoedd gynyddol o blant a rhieni yn ymuno ar y bws. Trwy annog teithio llesol er lles yr amgylchedd ac ar gyfer ein hiechyd fel unigolion, dyma'r dyfodol yn sicr! Diolch i bawb sydd yn cefnogi – mae croeso i aelodau newydd bob amser!



Diwrnod Ben i Waered

Cawsom ddiwrnod hynod hwylus ar ddiwedd yr hanner tymor er mwyn gwneud sawl beth ben i waered! O liwio gwallt i wisgo'n rhyfedd i ddilyn trefn am yn ôl, dyma dorri rheolau yn foesol ac yn barchus! Codwyd swm anghoel o £870 tuag at goffrau'r ysgol. Diolch i bawb am y mwynhau, am bob cyfraniad ac yn arbennig i'r Gymdeithas Rhieni am drefnu.

Celf Blwyddyn 6 a Rhiannon Roberts

Bellach, mae'r gwaith celf arbennig iawn a grëwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 6 yn eu gweithdy arbennig gyda Rhiannon Roberts wedi'i osod yn falch ar furiau'r ysgol. Mae'r gwaith gwirioneddol arbennig hen nid yn unig yn harddu ein hamgylchedd ond hefyd yn adrodd hanesion ein diwylliant a'n hardal leol ac yn tystiolaethu yr hyn sydd yn bwysig i'n hunaniaeth ni fel ysgol ac fel unigolion. Braf yw gweld y disgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith arbennig. Diolch i chi bob un am eich cyfraniad allweddol i'n hysgol. Pan ddaw'n amser i chi ymadael, byddwch yn sicr wedi gadael eich marc ac wedi gadael ychydig ohonoch ar ôl yn ein cymuned.



Y grŵp Dawnsio Hip-Hop / Stryd Disgo yn ymarfer eu perfformiad cyn teithio i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam.

Diwrnod ac Wythnos Lles

Mae wythnos iechyd meddwl mis Mai yn achlysur pwysig yn nghalendr yr ysgol yn flynyddol wrth i ni gymryd amser i feddwl am bwysigrwydd gofalu am ein iechyd a'n lles ni ac eraill. Cynhaliwyd ystod o weithgareddau i'w mwynhau eto eleni, gyda diwrnod sba i rai, ioga, cyfle i dylino dwylo, amser i fod yn y goedwig ac ym myd natur, dysgu sut i anadlu er ein lles ein hunain. Dathlwyd Diwrnod Seren a Sbarc yn briodol trwy redeg milltir y dydd tra'n gofalu am ein lles gyda rhestr chwarae o'n hoff gameuon Cymraeg yn gefndir i'r hwyl. Hyfryd iawn oedd gweld ein plant i gyd, o'r hynaf i'r ieuengaf, yn cefnogi ac yn annog ei gilydd fel ag sydd yn arferol o fewn cymuned unigryw ein hysgol. Da iawn chi, bob un!



Pedwerydd ym Mhrydain yn y Ddawns Gyfoes

Llongyfarchiad gwresog i Mabli am ennill y pedwerydd wobwr yn nghystadleuaeth y Ddawns Gyfoes unigol a gynhaliwyd yn Llandudno ym mis Mai. Mae Mabli yn un o nifer o ddawnsywyr talentog sydd gennym yn yr ysgol ac rydym yn hynod falch ohonynt i gyd. Rydym yn ddiolchgar iawn i Miss Thomas sydd â dawn arbennig wrth hyfforddi ein dawnswyr.



Gwasanaeth Dosbarth 1C

Braf iawn oedd gallu gwahodd teuluoedd i'r ysgol er mwyn gweld perfformiad arbennig iawn o wasanaeth dosbarth 1C ym mis Ebrill. Gwelwyd talentau lu wrth ddawnsio, llefaru a chanu, ac am hwyl! Rydym yn hynod falch o weld yr hyder a'r brwdfrydedd sydd yn ein disgyblion ifanc wrth iddyn nhw wneud y cyfan o flaen cynulleidfa.



Ysgol Garth Olwg

Gwyl Mabon

Roedd cael y profiad o berfformio yng Ngwyl Mabon yn un gwych gan fod hi'n gyfle ardderchog i ymarfer perfformio o flaen cynulleidfa fel bandiau. Roedd awyrgylch da yna ar y diwrnod ac rydyn ni'n edrych ymlaen at gael mwy o gyfleodd fel hwn yn y dyfodol.

Mari Roberts ac Awen Rhys



Diwrnod Rhifedd

Mae aelodau o griw Radio Garth wedi bod yn brysur wrth godi ymwybyddiaeth ar gyfer Diwrnod Rhifedd. Aethant wrthi i ofyn i gymuned Garth Olwg beth yw eu hoff rif a nifer o bethau sy'n ymwneud ag arian. Mae'r fideos yma i'w gweld ar gyfri Instagram @radiogarth.



Cyngerdd Dementia

Perfformion ni yn rhan o'r parti llefaru o flaen y gymuned i godi arian ar gyfer Dementia. Roedd e'n brofiad gwefreiddiol perfformio o'u blaen nhw. Roedd e'n gyfle da i ni weithio ar ein hyder wrth berfformio o flaen cynulleidfa. Roedden ni'n hapus i lefaru o flaen grŵp o bobl gydag wynebau mor goresawgar ac i drïo rhoi gwen ar eu hwyneb. Roedd y corau hefyd wedi perfformio'n wych!



Cyngerdd Dementia

Neges Ewyllys Da'r Urdd

Pob blwyddyn mae'r Urdd yn rhyddhau Neges o Ewyllys Da ac eleni roedd wedi ei amgylchynu o gwmpas tlodi. Gwnaeth aelodau o flynyddoedd 7-9 fod yn rhan o'n fideo eleni. Mae cyfle i weld y fideo ar instagram @cydraddoldebgo

Gŵyl y Gelli

Cafodd disgyblion blwyddyn 8 a 9 ddiwrnod i'r brenin yng Ngwyl y Gelli. Am dywydd gwych i fwynhau darllen gyda hufen ia!



Y Criw Cymraeg

Bu'r Criw Cymraeg yn gweithio'n ddiwyd yn hyrwyddo llawer o weithgareddau a syniadau i hybu Cymreictod y tymor yma. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig er mwyn lawnsio cystadleuaeth logo ein Siarter Iaith. Yna bu'r merched yn gweithio gyda disgyblion o'r Ysgol Isaf yn cyflwyno rhigymau clapio Cymraeg newydd a gemau buarth hwylus.



Cyfnod Cyfoethogi

Yn ystod yr hanner tymor mae'r ysgol wedi croesawu nifer o fyfyrwyr yn ôl i'r ysgol ar gyfer eu cyfnod cyfoethogi ac yn sgil hyn mae disgyblion B5 a 6 wedi bod ar eu hennill!

Maent wedi cael mewnbwn darpar

athrawon sydd ag arbenigedd Ymarfer Corff, Gwyddoniaeth a Dylunio a Thechnoleg. O ganlyniad rydym wedi bathu nifer o sgiliau newydd. Diolchwn yn fawr iawn iddynt am eu hamser.



Llwyddiant yn yr Urdd

Rydym yn dathlu llwyddiant nifer o'n disgyblion ac yn dymuno pob lwc iddynt yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr dros y Sulgwyn. Dathlwn lwyddiant ein tîm pêl-droed merched yn rownd genedlaethol trwnamaint yr Urdd yn Aberystwyth.



Dathlwn hefyd lwyddiant Elliot Bird o flwyddyn 5 am ddod i'r brig yn un o gystadlaethau Celf a Chrefft y Sir.



Ysgol Llanhari

Mewn Cymeriad

Roedd disgyblion blwyddyn 2, 3 a 4 wedi mwynhau perfformiad gan 'Mewn Cymeriad' am Betty Campbell gan eu bod yn dysgu am amrywiaeth. Dysgon nhw am hanes Bae Caerdydd yn ogystal â bywyd Betty Campbell.



Taith blwyddyn 5 a 6

Mwynhaodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 daith i Fae Caerdydd fel rhan o'u gwaith thema. Dysgon nhw am sut mae'r bae wedi ei drawsnewid dros y blynyddoedd a hanes Porth Teigr. Dilynon nhw lwybr cerdded wrth edrych ar sut mae'r dociau wedi newid ac wrth gwrs mwynhau hufen iâ yn yr haul.



Diolch i gyrfaoedd Cymru am drefnu gweithdai diddorol yn seiliedig ar stereoteipiau rhywedd i flwyddyn 7.



Aeth criw o ddisgyblion blwyddyn 7 i 10 i gynrychioli'r ysgol yn nhwrnament pêl-droed 7 bob ochr yn Aberystwyth yn ddiweddar. Llongyfarchiadau – roeddech chi'n wych!



Dysgu am gynladwyedd

Mwynhaodd disgyblion blwyddyn 7 ailddefnyddio plastig i greu creadur y môr yn dilyn gwersi ar bryder plastig yn ein cefnforoedd. Braff gweld gymaint o frwdfrydedd ymysg y disgyblion a gwaith trafod bendigedig.



Diwrnod Seren a Sbarc

Diolch i'r Dreigiau Doeth yn yr adran gynradd am gynnal amrywiaeth o weithgareddau i ddathlu Diwrnod Seren a Sbarc. Cynhaliwyd cystadlaethau gwahanol ym mhob dosbarth a chyhoeddwyd yr enillwyr yn y disgo a gafwyd tu allan ar yr iard yn y prynhawn. Diolch i chi am eich gwaith caled a llongyfarchiadau i'r enillwyr.



Oriel Gelf

Diolch i bawb a gymerodd rhan yn y gystadluethau Celf a Chrefft yr Urdd eleni. Mwyhaodd pawb ymweld â'r oriel yn Neuadd yr adran gynradd i weld yr holl waith; mae cymaint o blant talentog yn yr ysgol! Ymdrech arbennig gan bawb.



Llongyfarchiadau i'r rheini a fu'n llwyddiannus yng nghystadluethau yr Urdd. Dyma nhw'n dathlu ym Mhen-y-bont.



Gofalu am yr ardal leol.

Braff oedd gweld disgyblion o'r adran gynradd a'r adran uwchradd yn cymysgu wrth iddynt gydweithio i gasglu sbwriel o gwmpas yr ardal leol. Da iawn chi.



Menter Caerdydd



Edrych ymlaen at Tafwyl

Braf oedd gweld cymaint o bobl yn mwynhau'r adloniant a'r heulwen yng Ngŵyl Fach y Fro ganol mis Mai. Wrth i benwythnos Tafwyl agosáu, cawn obeithio am dywydd braf yng Nghaerdydd ar 14-15 Mehefin. Cofiwch lawrlwytho'r *app* o flaen llaw er mwyn cynllunio eich penwythnos. Mae amseroedd y sesiynau amrywiol a pherfformiadau'r bandiau hefyd i'w gweld ar wefan yr ŵyl: <https://tafwyl.org/>

Diffiniad, Candelas, Morgan Elwy ac Aleighcia Scott, Tara Bandito ac Al Lewis fydd ymhlith y prif artistiaid ddydd Sadwrn gyda Ffleur de Lys, Bwncath, Buddug, Gwibdaith Hen Frân a Mared ymysg y rhai fydd yn camu i'r brif lwyfan ddydd Sul.

Bydd llu o ddigwyddiadau Ffrinj yn ystod yr wythnos sy'n arwain at yr ŵyl gan gynnwys Dragwyl; sesiwn goginio i blant; picnic i'r teulu a gig ieuenctid yng Nghlwb Ifor Bach. Noder bod tocynnau ar gyfer noson 'retro' Tafwener bellach wedi gwerthu allan.

Taith Tafwyl (Prynhawn Sul, 8 Mehefin)

Bydd y daith hamddenol hon, yng nghwmni'r hanesydd a'r awdur lleol Melfyn Hopkins, yn dechrau ger eglwys hynafol St Isan ynghanol Llanisien. Awn am dro am ryw awr a hanner i ddysgu am hanes amaethyddol a diwydiannol y plwyf. Wrth gerdded, cawn weld lleoliad yr hen garchar a chlywed nifer o straeon hynod am yr ardal. Pris: Am ddim ond rhaid cofrestru o flaen llaw.

Picnic Tafwyl (Bore Llun, 9 Mehefin, 11.30)

Cynhelir picnic i blant bach a'u teuluoedd ym Mharc Fictoria, fore Llun, 9 Mehefin am 11.30 gydag adloniant gan Do Re Mi. Dewch i fwynhau ychydig o ganu a dawnsio gyda'ch ffrindiau! Pris: Am ddim.

Mewn Tiwn (Bore Llun, 9 Mehefin, 11.30)

Edrychwn ymlaen at groesawu'r chwirydd Enlli a Lleucu Parry yn ôl i Ganolfan Beulah, Rhiwbeina ar gyfer cyngerdd anffurfiol ar fore Llun, 9 Mehefin fel rhan o ddathliadau Tafwyl. Bydd 'Dwy' yn ein diddanu gydag awr o gerddoriaeth ar y fflwrt a bydd cyfle am banded a sgwrs o flaen llaw. Llwyfannir y gyngerdd gyda chymorth gan Grant Loteri Tŷ Cerdd ond gwahoddir cyfraniadau ar y diwrnod. Does dim angen cofrestru ond gellir defnyddio'r ffurflen ar-lein i gyfrannu rhodd.

Gig Ieuenctid (Nos Fercher, 11 Mehefin, 7.30)

Wedi llwyddiant bandiau megis Dadleoli, Taran ac Anhunedd dros y blynyddoedd diwethaf, mae cynllun 'Yn Cyflwyno' Tafwyl yn mynd o nerth i nerth. Bydd bandiau 2025 yn camu i'r llwyfan am y tro cyntaf nos Fercher, 11 Mehefin i ddiddanu'r dorf yng Nghlwb Ifor Bach. Mae tocynnau i'r gig ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan Menter Caerdydd.

Dragwyl (Nos Iau, 12 Mehefin, drysau yn agor am 7.00)

Wedi i sioe y llynedd werthu allan yn llwyr, mae Connie Orff a'i ffrindiau lliwgar yn dychwelyd i Ganolfan Mileniwm Cymru yn eu holl ogoniant ar nos Iau, 12 Mehefin fel rhan o Ffrinj Tafwyl. Mewn digwyddiad unigryw, bydd Cwïns a Chings Cymru yn dod at ei gilydd unwaith eto i ddod â deunydd newydd sbon i lwyfan Cabaret am un noson yn unig! I fachu eich tocyn, ewch i wefan Canolfan Mileniwm Cymru. Pris: £20

Sgwrs y Mis (nos Lun, 23 Mehefin)

Mae'n bosibl mai newid yn yr hinsawdd ydy'r her fwyaf sy'n wynebu Cymru a'r byd - ond oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i achub y sefyllfa? Pa newidiadau y gallwn ni wneud i'n bywyd bob dydd i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd? Ydy diffodd y golau, ailgylchu poteli neu ddal y bws wir yn mynd i wneud gwahaniaeth neu ai cyfrifoldeb y Llywodraeth a chwmnïau mawr yw gofalu am ddyfodol ein planed? Pris: £5 y sesiwn neu £20 am weddill 2025.

Gardd Berlysiâu'r Bont-faen (Nos Iau, 26 Mehefin)

Dewch i ddysgu mwy am yr ardd a'i hanes yng nghwmni un o'r gwirfoddolwyr ar nos Iau, 26 Mehefin. Cawn gyfle i fwynhau llonyddwch a harddwch y lle ar ôl i'r drysau gau i'r cyhoedd. Awydd mynd ond methu cyrraedd y Bont-faen? Cysylltwch! Efallai bydd modd rhannu liff. Pris: £3.50 er mwyn cynnig rhodd tuag at waith cynnal a chadw yr ardd.

Sesiwn Ymlacio Sain (nos Lun, 30 Mehefin)

Cyfle arbennig i fwynhau sesiwn o ymlacio llwyr, dan ofal Geraint Thomas o G Natur a Lles gan ddefnyddio offer sain. Mae rhai wedi adrodd bod sesiwn sain yn helpu i leihau pryder a straen ac yn gwella ansawdd cwsig. Dewch i weld dros eich hun! Cynhelir y sesiwn am 6.30yh yn festri Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth. Pris: £25

Sesiynau Sgiliau Digidol (Bob dydd Mawrth)

Ydy eich gliniadur yn peri penbleth i chi neu ydych chi'n poeni am ddiogelwch ar-lein? Cofiwch am ein sesiynau galw heibio yn Ystafell TGCh Hyb y Llyfrgell Ganolog ar gyfer y rhai sydd am wella eu sgiliau digidol. Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim ac mae croeso i chi alw mewn unrhyw bryd rhwng 10.00yb a hanner dydd.

Cadwch y Dyddiad:

Noson i Ddysgwyr – Rownd Caerdydd y Cwis Mawr a Phitsa – nos Iau, 17 Gorffennaf, Snails Deli, 6.00yh

Am fwy o fanylion am ein sesiynau ar gyfer oedolion, ewch i:

mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

I ddarllen mwy am ein gweithgareddau i blant, ewch i:

mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

Gwefan: mentercaerdydd.cymru

Facebook: [@m.caerdydd](https://www.facebook.com/m.caerdydd)

Instagram: [@mentercaerdydd](https://www.instagram.com/mentercaerdydd)

E-bost post@mentercaerdydd.cymru Ffôn: 029 2068 9888

Taith Hanes

SUL, 27.07.25

14:00-17:00

£4.00




Pontypridd

- Taith yn Gymraeg yng nghwmni Wil Morus Jones
- 2.5-3 awr o gerdded o gwmpas y dref ac i'r comin

Am fwy o fanylion am hyd a lleoliadau'r daith, ac i gofrestru, ewch i'r wefan.

mentercaerdydd.cymru/oedolion
rachel@mentercaerdydd.cymru




MC - Rhif Elusen: 1098606. Rhif Cwmni: 4576565

MIBM - Rhif Elusen: 1179555. Rhif Cwmni: 08867706